

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Mai 2024 am 7:00 yr hwyr.

Presennol

John Brinley Jones (Cadeirydd/JB), Victor Jones(VJ), James Evans(JE), Greta Hughes(GH), William Roger Jones(WJ), Ian Williams(IW), Alan Harper-Smith(AH), Kevin Wheatley(KW), Keith Williams(KW), Andrew Parry(AP), Gwenllian Davenport Hughes(GD), Ann Llwyd(AL).

Ymddiheuriadau - Dim

Datgan Buddiant

John B Jones cynllunio Bryn Seion
William Roger Jones cynllunio Llwyn Ial

Cofnodion Cyfarfod 30 Ebrill 2024

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Awdit

Cadeirydd yn cadarnhau mai Awdit llynedd sydd wedi ei gwblhau ddim un eleni. GH yn holi am yr Awdit a beth sydd ei angen. Cadeirydd yn cadarnhau fod angen popeth at Awdit eleni. Cadeirydd yn cadarnhau fod agenda Ebrill un debyg i heno/Mai achos dim yn glir beth oedd wedi ei ychwanegu gan y Clerc.

2. Llwybrau.

Cadeirydd yn cadarnhau fod y clerc ddim wedi cysylltu efo Owain na Rhys ac ei fod wedi gorfod gwneud ac popeth nawr wedi ei sortio.

3. Neuadd y Pentref

IW yn nodi mai cyfraniad gan Cyngor Cymuned nid Gwynedd sydd yn cael ei gynnig i drwsio'r draeniau.

IW yn cynnig

VJ yn eilio.

Cytunwyd yn unfrydol.

1. Ymddiswyddiad y Clerc.

Yn dilyn cynnig i'r Clerc ail ystyried ei ymddiswyddiad mae sawl gwall wedi dod yn amlwg. Trefnwyd cyfarfod brys ar 7/5/2024 i drafod y mater. Diolch i JE am cofnodion o'r cyfarfod. Cadeirydd wedi eu gyrru i bawb mewn ebost. Roedd y clerc yn dweud fod dim statements wedi dod o'r banc.

Cadeirydd wedi gwneud cais i dderbyn yr holl statements. Roedd rhai arlein wedi mynd i'r Clerc ond rhoddwyd cyfeiriad anghywir. Roedd y 'card reader' ayb gan y Clerc. Statements wedi bod yn mynd i'r cyferriad anghywir. GH yn holi pam fod y Cyngor ddim yn defnyddio yr offer sydd yn y neuadd ar gyfer y cyfrif ond Cadeirydd yn cadarnhau fod angen y 'card reader' i gael mynediad i'r cyfrif. Mae'r cadeirydd wedi lawrlwytho manylion y cyfrif. GD yn holi os oedd y 'pin' wedi ei ddefnyddio ond Cadeirydd yn cadarnhau fod dim wedi ei ddefnyddio felly popeth yn ddiogel.

Cadeirydd yn cadarnhau fod Natwest am yrru cwyn mewnol i weld beth sy'n deillio.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi sylwi ar sawl peth heb ei wneud wrth baratoi ar gyfer yr Awdit e.e anfonebau heb ei gyrru ayb. Adaliad gan Cyngor Gwynedd am £520 ynghlyn a llwybrau yn digwydd achos ymyraeth y Cadeirydd.

2. **Awdit**

TAW wedi ei sortio gan y Cadeirydd a taliad o £892.26 wedi ei gofnodi yn y cyfrif 15/5/24. Cadeirydd yn dweud fydd rhaid gwirio datganiadau banc yn mhob cyfarfod Cyngor Llanbedrog yn y dyfodol. Cadarnhaodd y cadeirydd bod pob siec nawr wedi eu trosglwyddo a'i gwario yn cynnwys cyflogau y Clerc, cyflog Anne ac i'r wefan. AH yn holi os fuasai'n hawsach talu efo debyd uniongyrchol yn hytrach na siecau. Cadeirydd yn ateb fydd rhaid trafod ymhellach wedi'r cyfnod anodd presenol gael gwella. Cadarnhaodd yr cadeirydd ei fod wedi gwario oriau hir yn paratoi yr Awdit a fod popeth nawr wedi ei drefnu. Sylw gan Gh fod sawl trigolyn yn cwyno am ddiffyg gwybodaeth ar yr wefan. Dywedodd IW fod rhaid cael cysondeb efo'r Awdit yn y dyfodol. Pawb yn cytuno. Ap yn diolch i'r Cadeirydd am ei waith called i gael ni trwy'r awdit a hefyd Greta am ei Gwaith ar yr adroddiad Bioamrywiaeth.
3. **Swydd y Clerc**

Cadeirydd yn datgan fod Caroline Jones efo diddordeb yn y swydd ac yn brofiadol ac addas i'r swydd. Cadeirydd yn gofyn os parhau efo'r hysbysebiad neu cynnig cyfweiliad i Caroline. Pawb yn cytuno i gyfweld Caroline. Trefnwyd ar gyfer 3/6/24.
4. **Bancio**

Cadeirydd wedi printio datganiadau cyfrif banc y Cyngor i'w rannu. GH yn holi os fuasai'n bosib medru gweld manylion y siecau ac i bwy maen't wedi talu. Cadeirydd yn cytuno. GH y n holi oes modd i aelodau'r Cyngor cael mynediad i'r cyfrif banc. Cadeirydd yn ateb drwy ddweud fod cyfrinair ei angen ar ffon symudol. Cadeirydd yn gofyn os yw'r aelodau yn hapus i newid cyfrif banc er mwyn cael llog gwell. GD yn gofyn os yw hyn yn dderbyniol yn y rheolau cyllidol fel Cyngor. IW yn cynnig fod Cadeirydd yn holi am cwestiwn GD. Pawb yn cytuno.
5. **Mynwent**

Cadeirydd yn datgan fod dim wedi ei wneud efo'r fynwent gan y Clerc ac Ghy n atgoffa'r Cyngor fod y cyfrifoldeb yma yn statudol. Cadeirydd yn cytuno ac yn sicrhau fod pobeth nawr wedi ei sortio ac fod yr Awditors wedi derbyn popeth. Glyn Owen heb dderbyn anfoneb ac fydd rhaid dilyn hyn efallai efo anfoneb newydd.

GH yn cynnig fod y Cyngor yn cysylltu a Gwynedd am gymorth efo'r pla o gwningod sydd yn y pentref yn cynnwys y Fynwent. AP yn dweud fod Gwynedd ddim yn fodlon helpu yn y gorffennol. GH i wneud ymholiadau am y mater o gwningod.
6. **Cyflymder 20mya.**

Mae'r Clerc wedi anfon ebost heddiw i Gyngor Gwynedd.
7. **Carafan yn Maes Parcio 'Y Llong' i'w drafod ar agenda mis nesaf.**
8. **Parcio yn Lon Nant Iago**

Cadeirydd wedi anfon ebost i'r aelodau. AH yn cadarnhau fod arwydd Newydd wedi ei osod. Arwyddion o wrthwynebiadau hefy wedi ei gosod. POb aelod wedi cael ebost am y mater. AH wedi gofyn os yn bosib i Wardeniaid traffig ymweld ond dywedwyd fod nhw are u gwyliau ar y funud. Fydd rhai monitor y sefyllfa.
9. **Toiledau**

AH yn datgan fod dau taliad angen ei wneud gan y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth. Cadeirydd yn cadarnhau fod y Cyngor wedi talu ac yn disgwyl cadarnhad gan y Cyngor.

10. **Llwybrau**

Cadeirydd yn dweud fod angen gofyn i Osian dorri llwybr'sig sag'. IW yn dweud fod angen torri llwybr ysgol. Penderfynwyd trafod yn y cyfarfod nesaf sefyllfa llwybr Trwy'r Nant efo'r cerrig rhydd dan droed sy'n poeni aelodau. Fydd angen cysylltu a Gwynedd i wella safon y torri ger Glyn y Weddw. GH yn dweud dylid fod y Cyngor yn trafod Bioamrywiaeth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn hwyluso'r broses o adrodd ar Bioamrywiaeth yn y pentref.

11. **Cae Chwarae**

JE yn dweud fod trigolion yn cwyno fod angen torri'r gwellt. Cadarnhaod fod Pwyllgor Maes Chwatae yn disgwyl ymateb am eu cais am grant i wella'r Cae Chwarae. Mae'r Pwyllgor wedi llythyru efo trigolion Cae Hendy i beido parcio o flaen y giat sy'n creu trafferth. VJ yn cynnig bod ni'n cysylltu efo ADRA I gysylltu efo'r trigolion. JE yn cynnig drafftio ebost i'w yrru i ADRA. IW yn eilio. Pawb yn cytuno.

Gofynnodd JE i'r Cyngor am lythyr yn cdarnhau y cyfraniad o £10,000 i grofa'r Apel Cae Chwarae. IW yn cynnig ac GD yn eilio fod y Cyngor bendant yn cyfrannu £10,000 i'r Apel. Pawb yn cytuno. IW yn datgan fod plenty wedi disgyn yn erbyn un o'r byrddau picnic yn y cae chwarae ac wedi cael anaf. Rhaid cael gwared ohonynt am eu bod mewn cyflwr gwael. Pawb yn cytuno. Cadeirydd am ofyn i Roger Fisher fynd yna i'w dinistrio.

12. **Neuadd y Pentref.**

IW yn cadarnhau fod Toiledau wedi eu trwsio heddiw. Draeniau yn cael ei trwsio wythnos nesaf. Cais grant am 'wellianau' yn parhau. Mae'r dyddiad 26/7/24 wedi ei gytuno i glirio'r neuadd ac fydd angen cymorth. Angen gwneud siwr fod yr'defibrillator' yn iawn. Cadeirydd yn datgan fod Iwan Hughes wedi gofyn i gael cynnal arddangosfa yn y Neuadd o hen luniau Llanbedrog. Pawb yn hapus i hyn ddigwydd yn y Gaeaf.

13. **Derbyniadau**

Cyngor wedi derbyn £12500 sef hanner y presept.

TAW – £892.26 ad daliad

14. **Taliadau.....pawb yn cytuno**

Ann Llwyd Cyfieithydd £70

Cyflog y Clerc - £416

Dwr Cymru £53.98

Gwynedd awdit 22/23 £264.00

Archwilio Cymru 22/23 £200.00

PAYE & NI £104

Roger Fisher £273.75

Archwilio Cymru 2021/22 £276.00

Zurich Insurance £705.45 (wedi dalu)

15. **Ceisiadau Cynllunio**

WOODCROFT: angen ail edrych ar penderfyniad y Cyngor yn wreiddiol(2021) ac ail-ddweud.

Y LLONG: dim gwrthwynebiad.

LLWYN IAL: WJ yn gadael y cyfarfod achos diddordeb. Dim gwrthwynebiad i'r cais.

BRYN SEION: Cadeirydd yn gadael y cyfarfod achos diddordeb. Dim gwrthwynebiad.

16. **Unrhyw Fater Arall.**

AP yn datgan fod angen trafod sefyllfa parcio o flaen y Neuadd wedi derbyn cwynion gan aelodau'r Clwb Dawnsio fod byth llefydd parcio ar gael achos ceir trigolion ar ffordd.